
Cyflwyniad i chwaraeon a ffitrwydd – E117

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Anelir y modiwl rhagarweiniol allweddol hwn at fyfyrwyr sydd â diddordeb cyffredinol neu broffesiynol mewn chwaraeon, hamdden a ffitrwydd. Bydd yn rhoi gwybodaeth gadarn iddynt am rai o'r cysyniadau sylfaenol allweddol ym myd chwaraeon a ffitrwydd, gan gynnwys: trefniadaeth y ddarpariaeth chwaraeon/ffitrwydd yn y DU; manteision gweithgarwch corfforol; egwyddorion hyfforddiant ffitrwydd; maeth; ac amrywiaeth o faterion cyfoes. Bydd y myfyrwyr yn gallu cymhwyso eu dealltwriaeth at eu cyfranogiad eu hunain mewn chwaraeon neu ymarfer corff, neu at yrfaeodd yn y maes hwnnw – er enghraifft hyfforddi ymarfer corff neu chwaraeon neu addysgu addysg gorfforol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn chwaraeon, ffitrwydd, ymarfer corff neu faes cysylltiedig, o leiaf
- profiad o weithio yn y sector chwaraeon neu ffitrwydd
- profiad o helpu eraill i ddysgu ar lefel gradd (e.e. drwy addysgu, hyfforddi neu oruchwyllo)
- diddordeb yn yr egwyddorion gwyddonol sy'n sail i chwaraeon a ffitrwydd
- parodrwydd i ddefnyddio technolegau ar-lein

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o diwtora ar-lein

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	8
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	7